Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Ailadroddwch Ailadroddwch Ailadroddwch

Ydych chi wedi sylwi sut mae eich plentyn wrth ei fodd yn canu'r un hwiangerddi, yn cwblhau'r un symudiadau ac yn darllen yr un llyfrau? Mae hyn oherwydd bob tro mae eich plentyn yn gwneud hynny, mae cysylltiadau yn yr ymennydd yn cael eu cryfhau.

Mae angen i'ch plentyn glywed gair llawer o weithiau cyn iddo deimlo'n ddigon hyderus i'w ddefnyddio. Po fwyaf mae eich plentyn yn clywed gair, y mwyaf y bydd yn dechrau deall beth mae'n ei olygu.

### Beth ddylwn i ei wneud?

- Ailadroddwch a modelwch yr iaith yn gywir – **"bydd seiniau fy lleferydd yn dod yn gliriach po fwyaf y clywaf air yn cael ei ddweud yn glir".**
- Mae plant wrth eu bodd yn clywed yr un stori, felly pan fyddwch chi'n chwarae gyda llyfr penodol hwnnw, **ceisiwch ddefnyddio lleisiau gwahanol.** Bydd hyn yn helpu i wneud y stori'n fwy diddorol i chi a'ch plentyn.
- **Dilynwch ddiddordebau'r plentyn** – ni fydd ailadrodd gorfodol yn gweithio, siarad am beth mae'r plentyn yn chwarae ag ef tra ei fod wedi'i ymgysylltu yw'r ffordd

### Sut?

**Cwblhewch yr un gweithgareddau, defnyddiwch yr un geiriau, a dilynwch yr un drefn…**

## Ceisiwch ddewis gair yr wythnos

**Geiriau cynnar**

**Dillad**

Cot, het, siorts, esgidiau, siwmper, ffrog.



**Bwyd**

Llaeth, sudd, afal, banana, byrbryd, wedi gorffen, agor, mwy.



**Rhannau o'r corff**

Pen, breichiau, dwylo, coesau,




**Teganau**



Doli, tedi, pêl, llyfr, pos.

**Trafnidiaeth**

Trên, car, beic, bws, cwch, sgwter.



### Eu roi ar waith

- Cofiwch gynnwys eich plentyn yn nhrefnau bob dydd. Ceisiwch **siarad â'ch plentyn am beth rydych chi'n ei wneud gan gofio ailadrodd geiriau a gweithredoedd cyfarwydd.** Bydd eich plentyn yn mwynhau'r ailadrodd ac yn dod i wybod beth sy'n dod nesaf.
- Mae **amseroedd bwyd** ac **amser bath** yn gyfleoedd gwych i **ailadrodd** a **rhoi sylw ar** y geiriau cynnar bob dydd hyn.
- Ailadroddwch air lawer o weithiau, ond cymysgwch bethau! **'Mae'r car yn gyrru.**

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos**

SCAN ME

SCAN ME

www.llyw.cymru/siarad-